OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 242 (Cy. 57)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A489 (Y Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau rhag cael Mynediad a Chyfyngu ar Aros ar Gilfannau) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym* | *15 Chwefror 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A483 a'r A489, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A489 (Y Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau rhag cael Mynediad a Chyfyngu ar Aros ar Gilfannau) 2019 a daw i rym ar 15 Chwefror 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbytffordd" ("*carriageway*") yw ffordd ar gyfer traffig sy'n ffurfio priffordd neu'n cynnwys priffordd, sy'n ffordd (heblaw trac beiciau) y mae gan y cyhoedd hawl dramwy drosti drwy fynd â cherbydau ar ei hyd;

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cilfan” (“*lay-by*”) yw unrhyw ran o’r gefnffordd a fwriedir fel man aros i gerbydau ar ymyl y gefnffordd a ffin gyfan neu rannol iddi o farciau ffordd o’r math a welir yn niagram 1010 o Ran 4 o Atodlen 11 i Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddydau Cyffredinol 2016(**2**);

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion a Chefnffordd yr A489 y Drenewydd i Aberystwyth.

### Gwahardd Mynediad

**3.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael mynediad i ben gorllewinol y gilfan ar gerbytffordd tua’r gorllewin Cefnffordd yr A483 sydd 601 o fetrau i’r gorllewin o Gylchfan Pool Road.

**4.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael mynediad i ben dwyreiniol y gilfan ar gerbytffordd tua’r dwyrain Cefnffordd yr A489 sydd 408 o fetrau i’r gorllewin o Gylchfan Ffordd Dolfor.

### Cyfyngu ar Aros

**5.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y cilfannau a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn am gyfnod sy’n fwy na 4 awr, gyda dim dychwelyd o fewn cyfnod o 4 awr, ar unrhyw ddiwrnod.

### Esemptiadau

**6.** Ni fydd dim yn erthygl 5 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y cilfannau’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy’n angenrheidiol i alluogi:

(a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o’r gweithrediadau a ganlyn:

- (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
- (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
- (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r cefnffyrdd a/neu’r cilfannau; neu
- (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, y cilfannau hynny, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig

(**2**) O.S. 2016/362.

fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**3**);

(b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(c) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y cefnffyrdd neu'n gyfagos iddynt;

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu;

(e) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Chwefror 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

## CYFYNGU AR AROS (CYFYNGIR Y CYFNOD AROS I 4 AWR MEWN UNRHYW GYFNOD O 8 AWR)

(**3**) 2003 p.21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

i. Cilfan cerbytffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 404 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pool Road hyd at bwynt 601 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pool Road.

ii. Cilfan cerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o bwynt 408 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Ffordd Dolfor hyd at bwynt 622 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Ffordd Dolfor.